**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(STRYDOEDD AMRYWIOL, ABERPENNAR)**

**GORCHYMYN (AMRYWIO, CYFYNGIADAU AROS A LLWYTHO) 2026**

**DATGANIAD O RESYMAU**

Yn dilyn adolygiad o'r ardal, mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i gyflwyno cyfyngiadau gwahardd aros ac i ddiwygio'r cyfyngiadau gwahardd aros presennol yn Heol y Darren, Aberpennar, er mwyn:

- Hwyluso'r llwybr i gerbydau;
- Osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd ac atal y tebygolrwydd y bydd perygl o'r fath yn codi.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn helpu i sicrhau bod y rhannau o'r ffordd sy'n cael eu heffeithio yn cael eu cadw'n glir o barcio, gan ei gwneud hi'n haws i gerbydau symud tra hefyd yn cynyddu gwelededd. Bydd y cynnydd mewn gwelededd yn caniatáu mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw, megis cerddwyr neu gerbydau a thrwy hynny'n lleihau'r risg o wrthdrawiad.

Byddai'r gwaharddiad ar gyfyngiadau aros hefyd yn berthnasol i'r darnau o lwybr troed sy'n rhedeg ar eu hyd, gan helpu i'w cadw'n glir o barcio a allai fel arall rwystro'r llwybr troed. Rydyn ni hefyd yn gobeithio bydd y cynnydd mewn lleoedd parcio heb ei reoli ar Heol y Darren o ganlyniad i'r cynnig yn helpu i leihau pwysau parcio a allai fel arall arwain at barcio rhwystrol. Bydd y newidiadau yma gyda'i gilydd yn lleihau'r angen i'r rhai sy'n cerdded ac yn defnyddio olwynion deithio'n uniongyrchol ar y briffordd er mwyn osgoi'r cerbydau hynny.

Mae adolygiad o'r ardal wedi nodi hefyd fod angen gwelliannau papur ychwanegol sy'n ymwneud â chyfyngiadau presennol yr ardal (heb unrhyw newidiadau ffisegol arfaethedig i'w gwneud ar y safle). Mae'r newidiadau yma'n cael eu cynnig i sicrhau bod modd i'r cyfyngiadau yma barhau i hwyluso teithiau a pharhau i osgoi perygl i bobl neu draffig a pharhau i atal perygl o'r fath rhag codi.

**Stryd y Fasnach - Cilfach Aros Cyfyngedig Arfaethedig**
Mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i gyflwyno cilfach aros cyfyngedig y tu allan i Rif 30, Stryd y Fasnach, Aberpennar, er mwyn:

- Cadw a gwella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi.

Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno er mwyn hwyluso parcio ar gyfer y rheiny sydd eisiau ymweld â siopau a chyfleusterau lleol gyda'r gobaith o gynorthwyo i'w cadw a'u gwella drwy gynyddu lleoedd parcio i ymwelwyr â'r ardal.

Yn rhan o'r cynigion yma, byddai modd i gerbydau barcio yn y gilfach dan sylw am uchafswm o 20 munud, a fydd dim modd dychwelyd i'r gilfach barcio cyn pen 40 munud ar ôl gadael, a hynny rhwng 6am a 9pm, dydd Llun i ddydd Sadwrn (gan gynnwys y diwrnodau yma). Bydd modd i gerbydau barcio yn y gilfach am unrhyw hyd y tu allan i'r oriau yma.

Byddai'r gilfach yn disodli'r cyfyngiadau dim aros ar unrhyw adeg (llinellau melyn dwbl) sydd ar waith ar hyn o bryd yn y lleoliad dan sylw. Yn rhan o'r cynnig, byddai'r cilfachau aros cyfyngedig presennol yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau bod digon o le ar gyfer y gilfach newydd.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(VARIOUS STREETS, MOUNTAIN ASH)**

**(VARIATION, WAITING AND LOADING RESTRICTIONS) ORDER 2026**

**STATEMENT OF REASONS**

Following a review of the area, The Council has developed proposals to introduce prohibition of waiting restrictions and to amend the existing prohibition of waiting restrictions in Darran Road, Mountain Ash, in order to:

- Facilitate the passage on the road for vehicles
- Avoid danger to persons or other traffic using the road and to prevent the likelihood of such danger arising

The proposed changes will help ensure that the affected lengths are kept clear of parking, making it easier for vehicles to manoeuvre said lengths whilst also increasing visibility. The increase in visibility will allow drivers more time to react to oncoming hazards such and pedestrians or oncoming vehicles, therefore reducing risk of collision.

The prohibition of waiting restrictions would also apply to the lengths of footway running alongside, helping to keep them clear of parking which may otherwise obstruct the footway. It also is hoped that the increase in uncontrolled parking in Darran Road resulting from the proposal will help to reduce parking pressures which may otherwise result in obstructive parking. These changes together will reduce the need for those walking and wheeling to travel directly in the highway to avoid said vehicles.

The review of the area has also identified that paper-based amendments relating to existing restrictions in area are required (with no physical changes to be made on site). These changes are therefore proposed to ensure that these restrictions may continue to facilitate passage and continue to avoid danger to persons or traffic and continue to prevent such danger arising.

**Commercial Street – Proposed Limited Stay Bay**
The Council has developed proposals to introduce a limited waiting bay outside No. 30 Commercial Street, Mountain Ash, in order to:

- Preserve and improve the amenities of the area through which the road runs

The proposal has been put forwards to accommodate parking for those wishing to access local shops and amenities in hopes to assist in preserving and improving them by increasing parking for visitors to the area.

It is proposed that during the hours of 6.00am to 9.00pm Monday to Saturday (inclusive of) vehicles may park in said bay for a maximum of 20 minutes and may not return to park within the bay again within 40 minutes. Outside of these hours vehicles may park in the bay for any duration of time.

The bay would replace the existing no waiting at any time restrictions (double yellow lines) at the affected location. As part of the proposal the individual spacing of the existing adjacent limited waiting bays would be adjusted to better accommodate the newly proposed bay.